# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**HYDREF 2021**

**TGAU**
**CYMRAEG IAITH - UNED 2**
**3000N20-1**

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2021. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

## TGAU CYMRAEG IAITH - UNED 2

## CYNLLUNIAU MARCIO HYDREF 2021

### Darn Darllen 1

A1. Ym mha yrfa bydd angen ugain mil o weithwyr erbyn 2022? [1]

Gweithwyr Iechyd Proffesiynol
Iechyd Proffeisynol
(Adalw Gwybodaeth)

A2. Ym mha yrfa bydd y galw am y nifer lleiaf o weithwyr yn 2022?
Rhowch ✓ yn y blwch cywir.

Technegwyr Gwyddoniaeth a Pheirianneg. [1]
(Dehongli gwybodaeth)

Rhoi ✓ i fwy nag un – 0 marc

© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 2**

A3. Darllenwch y gosodiadau isod yn ofalus a nodwch a ydyn nhw'n gywir neu'n anghywir drwy roi ✓ yn y blwch priodol. [2]

| Gosodiad | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| Mae'r gallu i weithio fel aelod o dîm yn bwysig er mwyn bod yn beiriannydd da. | ✓ | |
| Ni fyddwch yn gorfod derbyn unrhyw gyfrifoldeb pan fyddwch yn gweithio fel peiriannydd. | | ✓ |
| Un o rinweddau peiriannydd da yw'r gallu i egluro pethau'n syml. | ✓ | |
| Wrth weithio fel peiriannydd byddwch yn gorfod datrys problemau. | ✓ | |

0 marc - 0/1 yn gywir
1 marc - 2/3 yn gywir
2 farc - 4 yn gywir
Adalw a dehongli gwybodaeth

A4. Esboniwch pam ei bod hi'n bwysig cael sgiliau TGCh da er mwyn bod yn beiriannydd? [1]

Mae gwaith peirianneg yn gofyn am y defnydd o gyfrifiaduron.
(Unrhyw beth sy'n cyfleu eu bod nhw'n defnyddio cyfrifiaduron yn eu gwaith)

(Adalw a Dehongli gwybodaeth)

A5. Beth yw ystyr yr ymadrodd 'gwerth ei halen'? [1]

Rhywun sy'n gwneud rhywbeth yn dda / yn dda am wneud rhywbeth / rhywun sy'n haeddu parch/clod/arian neu gyflog am wneud rhywbeth

Dehongli ystyr ymadrodd

© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 3**

A6. Edrychwch ar y gair sydd mewn print trwm yn y frawddeg isod: [1]

‘Er hyn, dydw i ddim yn meddwl y byddai wedi hoffi’r sylw oherwydd roedd o'n ddyn **diymhongar** iawn.’

Beth yw’r nodwedd arddull a ddefnyddir gan yr awdur.

Rhowch ✓ yn y blwch cywir.

| | |
|---|---|
| Cymhariaeth/Cyffelybiaeth | |
| Cwestiwn Rhethregol | |
| Ansoddair | ✓ |
| Berf | |

Rhoi ✓ i fwy nag un – 0 marc
Adnabod techneg

A7. Eglurwch beth mae’r nodwedd yn ei ddweud wrthym ni am gymeriad Tecwyn Roberts? [2]

- Nid yw’n hoff o sylw am ei waith
- Nid yw’n hoffi sylw (ar lefel bersonol)
- Nid yw’n canmol ei hun
- Traed ar y ddaear
- Tawel

0 marc - Dim i’w wobrwyo/effaith nad yw’n esbonio’r ansoddair e.e. “Mae’n creu darlun yn fy mhen.”
1 marc - Esbonio beth mae’r ansoddair yn ei ddweud ar lefel syml ac yn fyr
2 farc - Esboniad manwl o’r ansoddair gyda’r drafodaeth yn argyhoeddi

(Gwerthuso)

© WJEC CBAC Cyf.

A8. Yn ôl Tudur Owen mae Tecwyn Roberts yn haeddu mwy o sylw.
Ydych chi'n cytuno? Defnyddiwch dystiolaeth o'r darn darllen i gefnogi eich ateb. [5]

- Wedi cael addysg gyffredin/magwraeth yn Ynys Môn
- Gŵr deallus/athrylith/talentog
- Person blaenllaw yn yr ymgyrch i anfon dyn i'r lleuad/un o gewri'r ymgyrch
- Dyn pwysig yn NASA
- Ei gyfraniad yn allweddol
- Wedi gweithio'n galed - dangos i bobl beth sy'n bosib
- Wedi cael ei ddewis yn benodol gan NASA ar ôl iddyn nhw chwilio ledled y byd
- Heb gael y sylw oherwydd ei fod yn wyddonydd/beirdd ac awduron yn cael mwy o sylw
- Nid yw'n hoffi sylw/dyn diymhongar iawn
- Ysbrydoliaeth i eraill
- Rhai o gewri NASA wedi cytuno i siarad â Tudur Owen oherwydd bod ganddyn nhw feddwl y byd o Tecwyn Roberts
- Dyn proffesiynol
- Dyn annwyl
- Balch iawn o'i wlad/Cymru'n bwysig iddo
- Swil

neu unrhyw bwynt perthnasol arall

0 marc - Heb ymgeisio/ateb amherthnasol
1 marc - Nodi barn yn fras – rhaid cael un/dau gyfeiriad am y darn
2 farc - Nodi barn yn gyson gydag ambell reswm/tystiolaeth – o leiaf tri pheth gwahanol
3 marc - Nodi barn yn eithaf manwl gyda rhesymau/tystiolaeth a dechrau dehongli
4 marc - Barn fanwl gyda rhesymau a dehongli tystiolaeth yn dda
5 marc - Barn fanwl gyda rhesymau cadarn a dehongli tystiolaeth yn aeddfed

Cyfyngu i 4 marc os nad oes barn yn yr ateb.
(Dehongli/rhesymu)
Defnyddio ✓ am bwynt neu farn
t – tystiolaeth b – barn

© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 4**

A9. Ym mha brifysgol mae Llŷr ap Cenydd yn gweithio? Rhowch ✓ yn y blwch cywir [1]

| | |
|---|---|
| Abertawe | |
| Caerdydd | |
| Aberystwyth | |
| Bangor | ✓ |

Adalw Gwybodaeth

Rhoi ✓ i fwy nag un – 0 marc

A10. Pa air yn y darn isod sydd yn golygu nad oes profiad tebyg i hwn ar gael yn unlle arall. Tanlinellwch **un gair.** [1]

Fe sydd wedi creu'r rhaglen o'r enw *Ocean Rift,* y rhaglen gyntaf yn y Gymraeg ar gyfer unrhyw gogls realiti rhithwir sy'n cynnig profiad cwbl unigryw i'r defnyddiwr.

(cwbl) unigryw

(Ystyr gair)

A11. Mae'r rhaglen *Ocean Rift* yn wahanol i bob rhaglen gyfrifiadurol yn y byd. Nodwch **ddau** reswm o'r darn darllen sy'n profi hyn. [2]

1 marc yr un am unrhyw ddau o'r rhesymau canlynol:

- Rhaglen Realiti Rhithiwir gyntaf sydd ar gael yn y Gymraeg
- Rhaglen fwyaf yn y byd er mwyn dysgu am y môr
- Creaduriaid yn dynwared ymddygiad go iawn/creaduriaid wedi eu hanimeiddio gan system deallusrwydd artiffisial a ddatblygwyd yn unswydd ar gyfer y project
- Rhaglen sy'n cynnig profiad unigryw i'r defnyddiwr
- 50 o baneli gwybodaeth ar gael yn y Gymraeg am y tro cyntaf erioed

(Dehongli Gwybodaeth)

© WJEC CBAC Cyf.

**Darnau Darllen 4 a 5**

A12. **Cymharwch** yr hyn rydych yn ei ddysgu am y profiadau yn 'Nofiwch gyda siarcod rhithiol!' a 'Dewch i ddysgu am y gofod a'r sêr!'
Cofiwch ddefnyddio tystiolaeth o'r darnau darllen i gefnogi'ch ateb. [7]

| Darn Darllen 4 | Darn Darllen 5 |
|---|---|
| Profiad artiffisial/cyfrifiadurol | Profiad naturiol allan yn yr awyr agored |
| Dysgu am y môr a'r creaduriaid ynddo | Dysgu am y sêr yn y gofod / natur o'n cwmpas |
| Profiad sy'n dibynnu ar dechnoleg | Profiad sy'n ein hannog i ddiffodd technoleg/dim angen technoleg i fwynhau'r profiad hwn |
| Cynnig profiad unigryw i nofio ar y cyd â siarcod ayyb | Cynnig profiadau unigryw i brofi'r awyr a'r sêr yn y nos. |
| Talu i brynu'r offer er mwyn mwynhau'r profiad hwn | Profiad sydd ar gael am ddim i'w fwynhau |
| Profiad lle nad oes rhaid i chi adael y tŷ i fwynhau | Profiad sy'n eich annog i adael y tŷ a mynd allan i'r awyr iach |
| Profiad mae person yn ei brofi ar ei ben ei hun | Profiad sy'n amser gwych i gymdeithasu a dod i adnabod eich ffrindiau a'ch teulu |
| Profiad sydd wedi cael ei ddatblygu gan Gymro ac ar gael yn y Gymraeg | Profiad sy'n bosib ei fwynhau yng Nghymru |
| Profiad sy'n mynd â'r defnyddiwr i fyd newydd | Profiad sy'n agor drysau newydd i'r bobl sy'n gwersylla |
| Defnyddiwr yn gallu dewis/addasu'r profiad wrth wneud dewisiadau | Profiad sy'n ddibynnol ar noson glir er mwyn ei fwynhau/does dim posib rheoli neu addasu'r profiad hwn |
| Defnyddio paneli gwybodaeth ar y rhaglen er mwyn dysgu gwybodaeth am yr anifeiliaid | Rhai gwersylloedd yn rhoi siartiau ac ysbienddrych er mwyn eich cynorthwyo i ddysgu mwy am y gofod |
| Profiad mwy anturus/prysur | Profiad mwy ymlaciol/tawel |

neu bwyntiau dilys eraill

0 marc - Dim i’w wobrwyo

1 marc - Ateb syml sy’n dangos y gallu i dynnu ambell ffaith o’r darn darllen (1-2 ffaith am y ddau brofiad)/crynhoi profiad ond heb gyfeirio’n benodol

2 farc - Nodi profiadau o’r ddau destun ond ddim yn cymharu’n bwrpasol (3 ffaith neu fwy yr un) o’r o’r ddau ddarn darllen.

3 marc - Cymharu’n fwriadol y ddau brofiad

4 marc - Cymharu profiadau yn gyson gan gyfeirio at wybodaeth fwy heriol o’r darnau darllen a dechrau dehongli’r profiadau hynny

5 marc - Cymharu profiadau yn gyson gan ddechrau dehongli’r profiadau hynny a chyfeirio’n gyson at y darnau darllen

6 marc - Cymharu bwriadol a hyderus wybodaeth fwy cynnil gan dynnu casgliadau a chyfeirio’n gyson at y darnau darllen

7 marc - Tynnu casgliadau aeddfed wrth ddehongli’r ddau brofiad gan ddefnyddio tystiolaeth o’r darnau darllen yn gyson

Dehongli/Cymharu/Dod i gasgliad

✓ - pwynt o un darn darllen
✓✓ - pwynt o’r ail ddarn darllen
C – Cymharu (Rhaid i’r pwyntiau gytuno â’i gilydd.)
D – Dehongli

**Golygu (5 marc)**

A13.

(a) Darllenwch y frawddeg isod a dewiswch y gair sydd fwyaf addas drwy roi ✓ yn y blwch priodol. [1]

Y llwybr mwyaf ............................ i gyrraedd copa'r Wyddfa yw llwybr Llanberis.

| | |
|---|---|
| poblogaeth | |
| poblogaidd | ✓ |
| poblogrwydd | |
| poblogi | |

Rhoi ✓ i fwy nag un – 0 marc

(b) Darllenwch y frawddeg isod a dewiswch y ddau air sydd fwyaf addas er mwyn llenwi'r bylchau drwy roi ✓yn y blwch priodol. [2]

…………………… y gêm bêl droed elusennol nos yfory ar gaeau'r ysgol. Bydd yr holl ............................................ yn mynd at Blant Mewn Angen.

| | |
|---|---|
| Cynhelir … elw | ✓ |
| Cynhaliodd … colled | |
| Cynhaliwyd … gemau | |
| Digwyddodd … chwaraewyr | |

Rhoi ✓ i fwy nag un – 0 marc

(c) Dewiswch ddau air o'r rhestr ganlynol a'u gosod yn y bylchau priodol. [2]

**hwyliog** **hwylus** **hwyl**

(a) Roedd y cyfleusterau yn y Ganolfan Hamdden yn (hwylus) ar gyfer rhieni a phlant.
(b) Roedd (hwyl) i'w gael yn y Clwb Ieuenctid bob nos Iau.

© WJEC CBAC Cyf.

## Adran B (Ysgrifennu) - 40 marc

B1. **Prawf Ddarllen (5 marc)**

(i) Darllenwch y frawddeg ganlynol. Mae **tri** gwall ynddi. Chwiliwch am y **tri** gwall a'u cywiro nhw yn y tabl sy'n dilyn. [3]

| |
|---|
| Roedd Huw yn teimlo'n gyffroes oherwydd ei bod yn gael mynd a rei wyliau. |

| Gwall | Cywiriad |
|---|---|
| **gyffroes** | **gyffrous** |
| **ei bod** | **ei fod** |
| **yn gael** | **yn cael** |

(ii) Pa un o'r canlynol sy'n gywir. Rhowch ✓ yn y blwch cywir. [1]

| | |
|---|---|
| Rhywyn | |
| Rhywun | ✓ |

(iii) Cywirwch y frawddeg ganlynol. Dylech ysgrifennu'r frawddeg yn gywir ar y llinell. [1]

Mae brawd ef yn byw yn Aberystwyth.

**Mae ei frawd ef yn / e'n / o'n byw yn Aberystwyth.**

Rhaid i'r frawddeg fod yn ramadegol gywir.

**ADRAN B2 (Ysgrifennu) (35 marc)**

| | ***CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)*** | ***YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)*** |
|---|---|---|
| **Band 5** | **17–20 marc**<br>• Ysgrifennu aeddfed a threiddgar<br>• Ysgrifennu effeithiol sy'n cynnal diddordeb y darllenydd trwy gydol y darn<br>• Addasu'r cywair priodol yn hyderus i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau yn argyhoeddiadol gyda manylder, gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Adeiladwaith sicr a chydlynol; strwythur soffistigedig i'r ysgrifennu | **13-15 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i greu effaith neu i gyfleu ystyr benodol gywir<br>• Gafael sicr iawn ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol<br>• Defnydd eang o gystrawennau cywir<br>• Defnydd hyderus a chywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn gywir bron yn ddieithriad<br>• Gafael sicr iawn ar dreigladau<br>• Gafael sicr iawn ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 4** | **13-16 marc**<br>• Ysgrifennu sy'n dangos yn glir y gallu i ddewis a dethol syniadau perthnasol a phriodol<br>• Ysgrifennu sy'n dangos dealltwriaeth sicr sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Addasu'r cywair yn briodol a chyson i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau gyda manylder sy'n argyhoeddi a cheir peth gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Ysgrifennu wedi ei strwythuro'n bwrpasol a'i drefnu'n eglur i roi dilyniant rhwydd a llyfn | **10-12 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa yn gywir<br>• Gafael sicr ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig<br>• Defnyddio ystod dda o gystrawennau'n gywir<br>• Defnydd cywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu sicr<br>• Gafael sicr ar dreigladau<br>• Gafael sicr ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 3** | **9-12 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol a diddorol ar y cyfan<br>• Ymwybyddiaeth glir sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Cywair yn briodol ac yn addas ar y cyfan i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Syniadau sy'n dangos datblygiad a cheir rhai cyffyrddiadau diddorol yn yr ysgrifennu<br>• Gwaith trefnus sy'n rhoi dilyniant a strwythur | **7-9 marc**<br>• Defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir<br>• Gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau<br>• Defnyddio ystod o gystrawennau'n gywir ar y cyfan<br>• Defnydd cywir ar y cyfan o ystod o atalnodi<br>• Sillafu mwyafrif y geiriau'n gywir<br>• Mwyafrif y treigladau yn gywir<br>• Mwyafrif y berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn gywir |

| | ***CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)*** | ***YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)*** |
|---|---|---|
| **Band 2** | **5-8 marc**<br>• Peth ysgrifennu cydlynol<br>• Peth ymwybyddiaeth o sut i greu effaith i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Ymdrech glir i addasu cywair i bwrpas/darllenydd<br>• Datblygu rhai syniadau gydag ambell gyffyrddiad diddorol<br>• Peth trefn ar y gwaith a pheth dilyniant i syniadau | **4-6 marc**<br>• Defnyddio peth ystod o eirfa<br>• Gafael anghyson ar ramadeg<br>• Amrywio brawddegau rywfaint<br>• Peth gafael ar gystrawen<br>• Peth gafael ar ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn eithaf cywir<br>• Treigladau yn eithaf cywir<br>• Berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn eithaf cywir |
| **Band 1** | **1-4 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol elfennol<br>• Ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r darllenydd<br>• Peth ymdrech i addasu cywair i bwrpas/cynulleidfa<br>• Peth cynnwys perthnasol er yn anghyson<br>• Trefn elfennol a dilyniant syml i syniadau | **1-3 marc**<br>• Ystod gyfyngedig o eirfa<br>• Gafael gyfyngedig ar ramadeg<br>• Defnyddio ystod gyfyngedig o frawddegau<br>• Gafael gyfyngedig ar gystrawen<br>• Peth ymdrech i atalnodi<br>• Sillafu rhai geiriau yn gywir<br>• Gafael gyfyngedig ar dreigladau<br>• Gafael gyfyngedig ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| | Dim sy'n haeddu ei wobrwyo | |

**Mewn tasgau esbonio, disgwylir i ymgeiswyr resymu ac egluro ar sail deall a chyfuno syniadau / gwybodaeth sydd wedi eu cywain o'r testunau darllen ac o brofiadau personol.**



© WJEC CBAC Cyf.